EISTEDDFOD
Wrecsam
2-9 Awst 2025

**601. Côr Gwerin**

# O Deued Pob Cristion




Tywysog tangnefedd wna'n daear o'r diwedd
yn aelwyd gyfannedd i fyw;
ni fegir cenfigen na chynnwrf na chynnen,
dan goron bydd diben ein Duw.
yn frodyr i'n gilydd, drigolion y gwledydd,
cawn rodio yn hafddydd y nef;
ein disgwyl yn Salem i ganu yr anthem
ddechreuwyd ym Methlem, mae ef.
Rhown glod i'r Mab bychan, ar liniau Mair wiwlan,
daeth Duwdod mewn baban i'n byd:
ei ras O derbyniwn, ei haeddiant cyhoeddwn
a throsto ef gweithiwn i gyd.